Sianel Deledu i Gymru yn ddi-oed

gan Gwynfor Evans

SICRHAODD teledu fod mwy o Saesneg i'w glywed mewn cartrefi Cymraeg nag sydd o Gymraeg. Âi cartrefi Cymru'n gyson Seisnicach eu hiaith ymhell cyn dyfodiad teledu. Tybed ai hon yw'r ergyd derfynol a ladd yr iaith? Dyma'r cyfrwng trymaf ei ddylanwad ar iaith a diwylliant a welwyd erioed.

Teimla pobl o bob oedran oddi wrth rym ei gyfuniad o lun a sain; ond y rhai a ddylanwedir drymaf yw plant a ieuenctid. Pa gyfartaledd o'r oriau a dreulia'r plant wrth y bocs sy'n Gymraeg eu hiaith, a faint sy'n Saesneg? Pa raglenni a welir gan bobl ifainc? Faint o'r rheiny sydd yn Gymraeg?

Yr argraff a gaf yw na wêl y mwyafrif helaeth o'r Cymry Cymraeg rhwng pedair ar ddeg ac un ar hugain oed fwy nag awr yr wythnos o raglenni Cymraeg. "Disc a Dawn" yw'r brif raglen ar eu cyfer; fe'i dangosir ar nos Sadwrn pan nad oes ond ychydig iawn o bobl ifainc gartref. *Os ydynt gartref, gwyliant hefyd oriau o raglenni Saesneg, gan gynnwys efallai 'War and Peace', cyfres a gostiodd, yn ôl Emyr Humphreys, ddwywaith a hanner cymaint ag a werir mewn blwyddyn yng Nghymru gan y B.B.C. ar raglenni Cymraeg a Saesneg.*

Dim rhyfedd fod y B.B.C. yn mynnu na thâl trwyddedau Cymru am gostau'r Gorfforaeth yn y wlad, a ninnau'n gorfod talu am y cyfresi costus hyn. O ran hynny, y mae holl raglenni Llundain yn llawer iawn mwy costus na'r rhai a gyfetyb iddynnhw yng Nghymru; dyna paham y gallant fod cymaint yn fwy deniadol. Cofiaf yn y rhaglen "This is your life" am Barry John, i gyfaill gael ei ddwyn draw'n arbennig o Seland Newydd i ddweud "helo" wrtho. Costiodd ei ychydig eiriau fwy na llawer o raglenni Cymraeg gyda'i gilydd.

Plant a phobl ifainc yw'r gynulleidfa bwysig o safbwynt dyfodol y Gymraeg. Hwy a gaiff eu Seisnigo gan y teledu. Cryfhau eu Cymraeg hwy yw'r angen mwyaf. Ers blynyddoedd bûm yn galw am awr y dydd o raglenni Cymraeg i blant. Dyna saith awr yr wythnos. Saith awr yr wythnos yw cyfanswm yr oriau Cymraeg gan y B.B.C. i bobl o *bob* oedran; pump a geir gan Harlech. Cyfansodda'r oriau Cymraeg 7% o'r holl oriau a ddarlledir yng Nghymru gan B.B.C. 1, B.B.C. 2 a Harlech. Gellir mentro dweud, lle bo teledu mewn cartref Cymraeg y clyw plant y cartref hwn fwy o Saesneg ar yr aelwyd nag o Gymraeg.

Y Methiant i Ddyblu'r Oriau

Hyd at ddwy flynedd yn ôl ein polisi oedd mynnu dyblu'r oriau Cymraeg o fewn tair blynedd, ac yna eu treblu. Mor ddiniwed oeddem. Nid ychwanegwyd dim atynt. Fel y cyfartaledd o'r cyfan a ddarlledir ar y tair sianel Gymreig y mae'r oriau Cymraeg yn disgyn. Mae ychwanegiad mawr at yr oriau Saesneg. Cynyddu gan hynny y mae pwysau'r Saesneg.

Ehangu y mae'r difrod i'n hiaith a'n diwylliant. Geilw rhai am roi blaenoriaeth i wella'r derbyniad, fel y byddai'r difrod yn llwyrach byth.

Pwysleisiais leied o Gymraeg a geir ar y cyfrwng. Dylid dweud hefyd fod y rhan fwyaf ohono ar yr amser salaf. Ychydig o Gymraeg a glywir yn ystod yr oriau brig rhwng saith a deg o'r gloch yr hwyr—dwy awr a chwarter gan y B.B.C. a hanner awr gan Harlech. Pan roddir at hyn y ffaith fod y rhaglenni, yn unig o achos prinder arian, yn llai deniadol na'r rhai Saesneg, deellir pam y bydd cyn lleied yn gweld yr ychydig raglenni Cymraeg a ddarlledir.

Y mae'r polisi o ddyblu ac wedyn treblu'r oriau Cymraeg ar y sianeli presennol gan hynny yn fethiant llwyr. Nid oes argoel y ceir dim gwellhad o dan y drefn fel y mae. Ac y mae canlyniad anhapus i'r sefyllfa ymhlith y Cymry di-Gymraeg. Y mae hyd yn oed y 7% pitw o raglenni Cymraeg yn eu gyrru wrth yr ugeiniau o filoedd at orsafoedd Seisnig. Dywedir mai tuag at y rhain y troir erialau mwyafrif mawr cartrefi dwyrain Cymru bellach, de a gogledd. Adlewyrchir hyn yng ngwerthiant y *Radio Times;* cyfansodda'r argraffiad Cymreig 2% yn unig o'r rhai a werthir yng Nghaerdydd.

Hyd yn oed yn y de-orllewin y mae gwylio mawr ar Westward. *Y mae gwesty'r Ivy Bush, y mwyaf yng Nghaerfyrddin, yn nodweddiadol; ni cheir rhaglenni o Gymru yno.* Ni bydd pobl yn y sefyllfa hon yn gweld y newyddion na rhaglenni Saesneg eraill o Gymru; dim byd Cymreig, heb sôn am Gymraeg.

Nid oes feddyginiaeth ddelfrydol i sefyllfa a grewyd gan y ffordd y datblygwyd y cyfundrefnau darlledu. Y Llywodraeth oedd piau'r ffordd honno a anwybyddodd genedligrwydd Cymru i'r fath raddau, a hi biau'r hawl i newid neu ychwanegu at y drefn. Fel yr unig lywodraeth sydd gan Gymru, ei dyletswydd yw trefnu modd i ddatblygu a chryfhau pob gwedd ar fywyd y genedl, gan gynnwys wrth reswm ei hiaith a'i diwylliant. Ni wnaeth hyn erioed yn y gorffennol.

Yn y Ddeddf Uno y gwelir y polisi a ddilynodd hyd at yn ddiweddar; onibai am nerth cynyddol y mudiad cenedlaethol siawns nad hwnnw fyddai ei pholisi byth. Fe'i cymedrolwyd bellach. Ni cheisia ladd yr iaith mwy. Ond nid ymegnïa ychwaith i'w swcro a'i datblygu fel y gwna Llywodraeth Tseina, er enghraifft, gydag ieithoedd eu cenhedloedd bach a'u lleiafrifoedd niferus. Sut, tybed, y mae esbonio rhagoriaeth foesol y Dwyrain rhagor y Gor-

llew'n Cristnogol ymron ymhob maes?

Yng Ngwlad yr Iâ, a'i phoblogaeth o ddau can mil, cynhelir sustem deledu sy'n darlledu am 25 *awr yr wythnos i* 99% *o'r bobl.* Yng ngwanwyn 1971 pasiodd yr Althing, senedd y wlad fach, Ddeddf Ddarlledu sy'n datgan hyn:

"Rhaid i wasanaeth darlledu'r wladwriaeth feithrin datblygiad diwylliannol y genedl a symbylu'r defnydd iawn o'r iaith genedlaethol." Mae hynny'n bosibl mewn cenedl ymreolus er ei lleied.

Cywilydd y Sianel Segur

Y ffaith syfrdanol am y sefyllfa Gymreig yw hyn: y mae sianel yma'n segur. Tra bo diwylliant Cymru'n cael ei falurio gan deledu Saesneg y mae yng Nghymru sianel na wneir defnydd cyhoeddus ohoni—y bedwaredd sianel fel y'i gelwir. Gellid swcro a chryfhau iaith a diwylliant Cymru trwy hon. Dewis y Llywodraeth yw peidio. Gellid ei ddefnyddio fel sianel genedlaethol yng Nghymru bron ar unwaith, heb effeithio ar unrhyw ddefnydd y penderfynir ei wneud ohoni yn nes ymlaen yn Lloegr—gellir ei defnyddio i amcanion cwbl wahanol yn y ddwy wlad; nid y sefyllfa Seisnig a benderfyna na chaiff ei defnyddio yn ddi-oed yng Nghymru.

O'i defnyddio fel sianel genedlaethol gellid, cyn gynted ag y ceid staff a stiwdios, ddarlledu chwech awr ar hugain o oriau Cymraeg yr wythnos—y nifer a nodir yn adroddiad Pwyllgor Teledu'r Brifysgol, gan roi'r mwyafrif ohonynt yn yr oriau brig. Yn ogystal, gellid a dylid dyblu oriau'r rhaglenni Saesneg a gynhyrchir yng Nghymru, gan ddarlledu o leiaf 16 awr yr wythnos ohonynt.

Anghenion arbennig yw: (1) Awr y dydd am saith niwrnod yr wythnos o raglenni bywiog i blant. (2) Hanner awr y dydd yn arbennig i ieuenctid; mwynheir y cyfan hyn gan oedolion. (3) Gwasanaeth newyddion byd a fyddai'n dileu'r arfer wael o drafod Cymru fel rhanbarth yn y bwletinau newyddion. (4) Defnydd helaeth o'r ffilmiau ardderchog, gan gynnwys rhai i blant, a wneir yn Ewrop.

Cyfrennid y rhan fwyaf o'r rhaglenni, o leiaf ar y dechrau, gan y B.B.C. a Harlech. Ond byddai'r sianel o dan reolaeth bwrdd annibynnol a enwebid gan yr Ysgrifennydd Gwladol; cynhwysai yn ddiau gynrychiolwyr rhai o'r prif sefydliadau cenedlaethol ynghyd â'r B.B.C. a Harlech.

Sonia rhai am ddiffyg talent ac am y gost. Arwydd yw'r math hwn o wrthwynebiad, a geir pryd bynnag y ceisir gwelliant mawr yng Nghymru, o'n diffyg ewyllys i fyw bywyd cenedlaethol llawn. Barn y rhai sy'n gyfrifol am y rhaglenni a gynhyrchir yng Nghymru yw bod digon o dalent ar gael i gyflwyno 26 awr yr wythnos o raglenni Cymraeg. Datganodd Mr. Aled Vaughan hyn yn groyw ar ddalennau'r *Western Mail.* Nid talent sy'n brin ond arian.

Bwgan y Gost

Ac am y gost y sonnir fwyaf, er ein cywilydd. Clywyd llawer o ffwlbri am hyn. Cyhoeddodd y B.B.C. y costiai £38 miliwn i sefydlu cyfundrefn newydd yng Nghymru. £92 miliwn yw cyfanswm gwerth holl asedau'r B.B.C. ymhob man! £400,000 a gostiodd i sefydlu Border Television.

Cyst lawer mwy i gynnal gwasanaeth nag i'w sefydlu, ond mewn cymhariaeth â rhai gwasanaethau—addysg er enghraifft—nid yw'n fawr. O ran hynny, y mae sianel deledu genedlaethol yn sefydliad mawr iawn a all gyfrannu addysg a llunio diwylliant i fwy graddau, o bosibl, nag y gwna Prifysgol genedlaethol. Gellir ei ystyried fel sefydliad addysgiadol, a theg yw cymharu ei gost â threuliau Pwyllgor Addysg Morgannwg. Heb gynnwys Caerdydd, Abertawe a Merthyr Tudful y mae costau'r un pwyllgor hwn yn tynnu am £80 miliwn y flwyddyn.

Pe bai'r Llywodraeth o ddifrif am swcro diwylliant cenedlaethol Cymru ni byddai £10 *miliwn y flwyddyn yn ormod i'w wario ar deledu Cymru; byddai'n llai na chostau blynyddol Pwyllgor Addysg Sir Gaerfyrddin.*

Deuai rhan sylweddol o'r arian oddi wrth drwyddedau a chyfundrefn Harlech neu'r I.T.A., ond dylai'r Llywodraeth dalu'r gweddill. Hoffwn ei gweld yn sianelu'r arian trwy Gomisiwn nerthol a hybai iaith a diwylliant Cymru yn eu holl agweddau.

Proffesa'r Llywodraeth bellach ei hawydd i feithrin diwylliant Cymru. Dyma brawf ar ei didwylledd. Ar hyn o bryd y mae ei hanghyfrifoldeb yn ymylu ar yr anwaraidd; dyna yw peidio â defnyddio sianel segur i swcro hen iaith a diwylliant cenedlaethol sy'n marw. Ped ymdeimlai â'i chyfrifoldeb cyhoeddai'n ddi-oed y rhoddid y bedwaredd sianel yng Nghymru at wasanaeth Cymru cyn gynted ag y bo'n ymarferol cychwyn ar ei defnyddio—a byddai hynny ymhell cyn 1976. Corfforaeth ddarlledu annibynnol sydd ei heisiau y flwyddyn honno.

On'd ydym ni'r Cymry'n gywilyddus o ddi-symud yn wyneb y sefyllfa anfad, pan fo ein cenedl mewn argyfwng mor enbyd, a phan fo hufen y genedl yn dioddef carchar dros yr achos?